# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 10 Ionawr 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/13679) yn:

http://senedd.tv/cy/13679

# 181(v3)

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiynau 4, 5 a 7 gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 14.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 7 gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.35

Atebwyd gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol

Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o sut mae sgandal Horizon Swyddfa'r Post yn parhau i effeithio ar fywydau trigolion yng Nghymru?

**Atebwyd gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**

Sam Rowlands (Gogledd Cymru): A wnaiff Llywodraeth Cymru ddatganiad am Arriva yn newid pob gwasanaeth bws yng Ngogledd Cymru o ganlyniad i'r terfyn cyflymder diofyn 20mya yng Nghymru?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 16.29

Gwnaeth **Mike Hedges** ddatganiad am - Diwrnod ymwybyddiaeth canserau llai goroesadwy (11 Ionawr).

Gwnaeth **Sarah Murphy** ddatganiad am - Teyrnged i JPR Williams.

Gwnaeth **Sam Rowlands** ddatganiad am - Côr Meibion Maelgwn.

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol - Amser rhoi diwedd ar dlodi plant: sut y gall Cymru wneud yn well

Dechreuodd yr eitem am 16.35

**NDM8446** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: “Amser rhoi diwedd ar dlodi plant: sut y gall Cymru wneud yn well” a osodwyd ar 6 Tachwedd 2023.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Rhagfyr 2023.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Canlyniadau PISA

Dechreuodd yr eitem am 17.31

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8447** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi canlyniadau Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) 2022, a gyhoeddwyd ar 5 Rhagfyr 2023.

2. Yn gresynu at y ffaith:

a) bod perfformiad Cymru wedi gostwng i'w lefel isaf erioed mewn profion mathemateg, darllen a gwyddoniaeth a gymerwyd gan bobl ifanc 15 oed;

b) mai canlyniadau Cymru oedd yr isaf o holl wledydd y DU, am y pumed tro yn olynol; ac

c) bod canlyniadau Cymru yn is na chyfartaledd yr OECD.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) blaenoriaethu addysg plant drwy gael 5,000 yn fwy o athrawon yn ôl i ystafelloedd dosbarth;

b) sicrhau bod y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael y cymorth cywir yn gynt, heb unrhyw doriadau i anghenion dysgu ychwanegol yng nghyllideb 2024-25;

c) ailgyflwyno math o brofion safonedig ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol i helpu rhieni ac athrawon i fonitro cynnydd dysgwyr yn ystod cyfnodau allweddol a chymharu perfformiad;

d) datblygu rhaglen well ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog; ac

e) cael gwared ar y consortia addysg rhanbarthol a buddsoddi arbedion a wnaed yng nghyllidebau ysgolion.

Canlyniadau PISA 2022 (Saesneg yn unig)

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 34 | 48 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi bod y pandemig wedi effeithio ar sgoriau PISA ledled y byd.

Yn cydnabod bod Cymru wedi gweld gwelliant mewn llythrennedd a rhifedd yng nghanlyniadau PISA 2018, fodd bynnag mae'r cynnydd hwnnw wedi dirywio ers y pandemig.

Yn croesawu:

a) lansio cynlluniau llythrennedd a rhifedd i godi safonau yn y meysydd allweddol hyn;

b) bod y cyllid i gefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf a'i fod wedi'i ddiogelu yn y gyllideb ddrafft;

c) bod Asesiadau Personol ar-lein yn cael eu defnyddio mewn ysgolion ledled Cymru i gefnogi addysgu a dysgu, ac y bydd data o'r asesiadau yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol i olrhain cynnydd; a

d) sefydlu Tasglu Presenoldeb Cenedlaethol i gefnogi ysgolion i wella cyfraddau presenoldeb.

[Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25]

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 23 | 49 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gan fod gwelliant 1 wedi ei dderbyn, cafodd gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi canlyniadau Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) 2022, a gyhoeddwyd ar 5 Rhagfyr 2023.

2. Yn nodi bod y pandemig wedi effeithio ar sgoriau PISA ledled y byd.

3. Yn cydnabod bod Cymru wedi gweld gwelliant mewn llythrennedd a rhifedd yng nghanlyniadau PISA 2018, fodd bynnag mae'r cynnydd hwnnw wedi dirywio ers y pandemig.

4. Yn croesawu:

a) lansio cynlluniau llythrennedd a rhifedd i godi safonau yn y meysydd allweddol hyn;

b) bod y cyllid i gefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf a'i fod wedi'i ddiogelu yn y gyllideb ddrafft;

c) bod Asesiadau Personol ar-lein yn cael eu defnyddio mewn ysgolion ledled Cymru i gefnogi addysgu a dysgu, ac y bydd data o'r asesiadau yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol i olrhain cynnydd; a

d) sefydlu Tasglu Presenoldeb Cenedlaethol i gefnogi ysgolion i wella cyfraddau presenoldeb.

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 24 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 7 Dadl Plaid Cymru - Tlodi plant a chyrhaeddiad addysgol

Dechreuodd yr eitem am 18.16

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8445** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod 28 y cant o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi.

2. Yn nodi'r gydberthynas rhwng tlodi plant a'r bwlch cyrhaeddiad addysgol.

3. Yn nodi'r canlyniadau PISA diweddaraf a'r adroddiad cenedlaethol a ddangosodd fod 11 y cant o ddysgwyr yng Nghymru wedi methu pryd o fwyd oherwydd tlodi.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ymestyn y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim i flynyddoedd 7 i 11 ar gyfer yr aelwydydd hynny sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, heb uchafswm o ran enillion; a

b) gweithredu targedau statudol yn y Strategaeth Tlodi Plant derfynol i gyfrannu at gau'r bwlch cyrhaeddiad a gwella canlyniadau addysg.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 39 | 49 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn credu mai addysgu a dysgu o ansawdd uchel yw'r ffactor pwysicaf mewn ysgolion ar gyfer mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad.

Yn croesawu:

a) gwell ffocws mewn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon ar yr ystod o ddulliau addysgu a dysgu sydd eu hangen i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar brofiadau a deilliannau dysgwyr.

b) diogelu yn y gyllideb ddrafft y Grant Datblygu Disgyblion a chanllawiau newydd i gefnogi ysgolion i dargedu'r cyllid hwn yn well.

c) y gwaith a wneir gan Bencampwyr Cyrhaeddiad Llywodraeth Cymru i rannu eu profiadau o fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad, a'r bwriad i ddatblygu hyn ymhellach.

d) y rôl y gall Ysgolion Bro ei chwarae i helpu rhieni a theuluoedd i gymryd diddordeb yn addysg y plant, ac i ddatblygu’r amgylchedd dysgu yn y cartref.

e) rhaglenni fel Hanfodion Ysgol a Rhaglen Gwella Gwyliau’r Haf sy’n darparu cymorth amhrisiadwy i leihau costau byw i deuluoedd.

Yn nodi bod canlyniadau PISA wedi canfod bod addysg yng Nghymru yn decach na chyfartaledd yr OECD a gwledydd eraill y DU, gyda’r bwlch cyrhaeddiad yn llai rhwng dysgwyr mwy difreintiedig a dysgwyr llai difreintiedig.

Cyllideb Ddrafft 2024 i 2025 Llywodraeth Cymru

Grant Datblygu Disgyblion: canllawiau

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 24 | 49 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gan fod gwelliant 1 wedi ei dderbyn, cafodd gwelliannau 2, 3, 4 a 5 eu dad-ddethol.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y’i diwygiwyd:**

**NDM8445** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

1. Yn nodi bod 28 y cant o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi.

2. Yn nodi'r gydberthynas rhwng tlodi plant a'r bwlch cyrhaeddiad addysgol.

3. Yn nodi'r canlyniadau PISA diweddaraf a'r adroddiad cenedlaethol a ddangosodd fod 11 y cant o ddysgwyr yng Nghymru wedi methu pryd o fwyd oherwydd tlodi.

4. Yn credu mai addysgu a dysgu o ansawdd uchel yw’r ffactor pwysicaf mewn ysgolion ar gyfer mynd i’r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad.

5. Yn croesawu:

a) gwell ffocws mewn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon ar yr ystod o ddulliau addysgu a dysgu sydd eu hangen i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar brofiadau a deilliannau dysgwyr.

b) diogelu yn y gyllideb ddrafft y Grant Datblygu Disgyblion a chanllawiau newydd i gefnogi ysgolion i dargedu'r cyllid hwn yn well.

c) y gwaith a wneir gan Bencampwyr Cyrhaeddiad Llywodraeth Cymru i rannu eu profiadau o fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad, a'r bwriad i ddatblygu hyn ymhellach.

d) y rôl y gall Ysgolion Bro ei chwarae i helpu rhieni a theuluoedd i gymryd diddordeb yn addysg y plant, ac i ddatblygu'r amgylchedd dysgu yn y cartref.

e) rhaglenni fel Hanfodion Ysgol a Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf sy'n darparu cymorth amhrisiadwy i leihau costau byw i deuluoedd.

6. Yn nodi bod canlyniadau PISA wedi canfod bod addysg yng Nghymru yn decach na chyfartaledd yr OECD a gwledydd eraill y DU, gyda'r bwlch cyrhaeddiad yn llai rhwng dysgwyr mwy difreintiedig a dysgwyr llai difreintiedig.

Cyllideb Ddrafft 2024 i 2025 Llywodraeth Cymru

Grant Datblygu Disgyblion: canllawiau

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 24 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 8 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 19.11

## Crynodeb o Bleidleisiau

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 19.16

**NDM8444** Mabon ap Gwynfor (Dwyfor Meirionnydd)

Methu cynllunio, cynllunio methiant - pam mae angen aildrefnu cynllunio yng Nghymru

Daeth y cyfarfod i ben am 19.39

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 16 Ionawr 2024**